


Blodyn Haul

Mae'r gwanwyn wedi cyrraedd Cae Eithin, gyda nosweithiau di ddiwedd y gaeaf yn ddim ond atgof bellach. Mae tannau'r byngalos unlliw wedi eu diffodd, a'r lawntiau smwt wedi eu torri am y tro cyntaf eleni. Yn rhif 37 mae hi'n wawr ar ddigwyddiad blynyddol.

“O'r hen greadur ty'd yma.” Meddai Enid gan ymlwybro ei bysedd ar hyd y sil ffenest tua'r hadyn. Roedd wedi disgyn o'r potyn wrth iddi dasgu ymhlith yr hadau llwyd. “Mi fyddi di'n smart rhyw ddiwrnod wsti,” ebycha gan wenu'n glên, yn amlwg wedi dotio'n llwyr gyda'r darn bach o fywyd rhwng ei bys a'i bawd. Gyda'i llaw chwith, mae hi'n estyn am y potyn plastig cyn gwthio'r hadyn i mewn i'r compost parod. “Swatia di yn fanna washi, ti'n gynnes rwan dwyt.” Sibryda gan ddod a'i gwefusau at ochr y potyn, a phlannu cusan fechan. Mae hi'n dodi'r potyn ar sil ffenest y gegin, lle bydd yr haul yn ei warchod am y tro – cyn ei drochi mewn cawod oer o'r tun dyfrio. Yna, mae hi'n troi am y gegin. “Dyna ni wedi cael sortio hynna am 'leni,” gan ochneidio yn dawel a chroesi ei breichiau yn fodlon, “paned amdani.”

Eistedda wrth fwrdd y gegin, gyda'i myg melyn Cadbury's Mini Eggs yn llawn Yorkshire Tea -yr unig de sy'n gwneud tro. Mae hi'n gwisgo cardigan sy'n sribedi o borffor a gwyrdd golau, wedi eu plethu mewn llinellau ystwyth ar gefndir fioled golau. Mae ei hwyneb wedi ei goluro yn ofalus gyda thamaid o bowdr a blÿsh ar ei bochau, a sbectol mewn ffrâm aur denau sy'n eistedd ar ei thrwyn.




Yn coroni'r cyfan mae clwstwr o wallt gwyn sydd mewn cwrls twt, yn amlwg yn ganlyniad perm. Mae hi'n pori drwy'r papur lleol, gan gymryd sipiau o'r te claeaf, y llinellau ar ei dwylo yn dyst torchi llewys yn y gwaith a'r cartref dros sawl degawd. Does dim ond tician yr hen gloc i'w glywed yn y gegin, fel sy'n gyffredin bob bore erbyn hyn.

“Duw, Glenys Nant y Coed wedi marw.” Cyhoedda wrth ddarllen drwy'r golofn marwolaethau. “Y gradures, wedi bod yn sâl ers talwm.” Mae hi'n dawel am eiliad, yn myfyrio ar y ffaith. “Un arall o'r hen griw capel, mi fydd raid i mi yrru cerdyn.” Cyn codi a llwybro tua'r ystafell wely yng nghefn y tŷ, ac estyn cerdyn o'r drôr cardiau cydymdeimlo. Eistedda wrth y bwrdd eto, pen a phapur yn ei dwylo. Sylla ar y cerdyn am eiliad, cyn i don annisgwyl o alar ei tharo gyda thrymder. Meddylia nawr am yr holl gardiau eraill mae wedi eu hysgrifennu'n ddiweddar, atgof creulon o'i meidroldeb ei hun. Rho'r cerdyn i lawr cyn edrych tua'r potyn roedd hi newydd blannu a nodi “fory.” Cyn taflu gweddill y baned oer yn y sinc ac ymddeol i'r lolfa.

Mae'r tir yn dadmer yn araf, ac ias frathog y Gaeaf yn cilio yng Nghae Eithin. Mae'r bore yn datod yn rhif 37, gyda sŵn slipers i'w clywed yn llusgo o stafell i stafell.

“Gwyrddni!” Gweidda Enid gyda chyffro plentyn wrth weld y ddeilen gyntaf, tra iddi lenwi'r tegell. “Hogia' bach, dydach chi'n wyrth.” Meddai gan syllu'n eiddgar ar y dotyn gwyrdd yn y pridd. Un egin blanhigyn sydd wedi codi ei ben uwchben y dŵfe brown, yn pefrio gyda gobraith.

“Ma' nhw'n deud fod o'n beth da i mi siarad efo chi, yn annog tyfiant.” Dywed cyn chwerthin. “Wel, yn ôl Woman's Weekly de.”




Caiff y tri eu bwydo gan hanesion o'r oes a fu, gan ganu corawl a geiriau llaes Aled Hughes yn y boreau. Mae hi'n cludo'r egin blanhigion y tu allan i fwynhau'r awyr iach a synau cefn gwlad pan fo'r haul yn ymweld, cyn eu dychwelyd i'r gegin yn saff rhag ofn i'r rhew eu difetha. Mae'r tri yn crwydro'n bwyllog tua'r nenfwd er mwyn manteisio ar bob diferyn o oleuni prin, gydag Enid yn eu gwyllo'n ofalus rhwng pennodau Heartbeat ar sianel Dave.

Mae'r gwanwyn wedi ffrwydro bellach, gan dasgu rhubanau o wyrddni a lliw ledled y wlad. Mae eira mis Ebrill wedi pasio, gyda gwres annibynadwy yr haul yn cynnig awgrymiadau chwareus o'r haf sydd i ddilyn. Mae'r byngalo ar gongl Cae Eithin yn gwbl lonydd, gyda dim ond llais Shan Cothi ar y radio i'w glywed yn dianc o'r lolfa - y sgwrs heddiw yn ffocysu ar stori merch o Ynys Môn sydd wedi mynd i weithio fel athrawes Saesneg yn Kuala Lumpur. Mae Enid yn pendwmpian, gyda'i sbectol yn gorffwys ar gribyn ei thrwyn, a'i thraed mewn slippers coch yn dwt ar y stôl o'i blaen. Heb rybudd mae cloch y drws blaen yn atseinio drwy'r waliau, gan roi diwedd ar yr heddwch cymharol. Mae Enid yn casglu ei nerth cyn gwthio i fyny o'r sofffa hufen, a chrwydro am y drws. Drwy'r ffenest fechan, gwelai ddim ond cysgod tal. Agora'r drws, gan edrych i fyny mewn drys.

"Helo Nain!" Meddai'r cysgod.

"Wel, dyma fo! Wedi dod i weld ei nain druan." Mae ei llygaid yn goleuo, a gwen anferth bellach yn llenwi ei hwyneb. "A be 'dwi 'di neud i haeddu fisit d'wad?"

"Dydach chi ddim yn gorfod haeddu fisit nain, peidiwch bod yn wirion." Meddailanto wedi'i gythruddo.



“Wedi dod i weld sut ydach chi ‘dwi ‘de!”

“Mi fysai’n well i ti ddod i mewn am baned felly, ‘fysa!” ateba, cyn troi am y gegin. Mae lanto yn ei dilyn,

“Ty’d i weld yr hogia’, ma nhw’n smart ‘wsti!” ebycha Enid, cyn arwain ei wŷr tua’r ffenest gefn.

Yno ar y sil ffenest mae’r tri llanc yn sefyll, eu breichiau wedi ymestyn yn llydan.

“Iargol Nain, ma nhw’n edrych yn gryf ‘leni dydyn.”

“Diolch i’r tywydd da ‘ma da ni ‘di gael ma’ hynna wsti,” Mae hi’n methu cuddio ei gwefr.

“Mewn potiau ar ben eu hunain yn barod Nain! Fyddda’ nhw’n barod at y Sioe Flodau dy’ chi’n meddwl?” Ychwanega lanto gan geisio adlewyrchu cyffro ei nain,

“Gawn ni weld am hynna lanto bach,” cyn gwenu’n gudd.

Mae hi’n fud am eiliad, cyn arwain lanto tua’r bwrdd bach yng nghornel yr ystafell.


“Ydy’r hogia annifyr ‘na yn dal i achosi trwbl i ti lanto bach?”

Hola, mewn tŷn famol sy’n synnu lanto.

“Na, dim wir.” Ateba gan edrych i ffwrdd, “Dim ers y growth spurt Nain.”

“Wel wir, rei’ da.” Estynna law am ysgwydd ei wŷr, gan afael yn dynn ac edrych i wyneb y bachgen.”Lle mae’r twb bisgedi ‘na dŵad?”


Mae diwedd y gwanwyn yn brysio i Gae Eithin, gyda’r diwrnodau yn prysur ymestyn, a’r gwenoliaid yn dychwelyd o’u taith hirfaith i’w nyth yn y bondo.



Mae Enid yn doddi'r tun dyfrio yn y cwpwrdd, ar ôl dyfrio'r planhigion ifanc cyn y machlud. Teimla gric annifyr yn ei chefn, wedi'i ddilyn gan sioc drydanol i lawr ei asgwrn cefn sy'n achosi iddi wingo mewn poen. Mae hi'n ymlwybro am ei gwely, y boen yn drech arni unwaith eto. Ar ôl setlo, penderfyna edrych drwy hen luniau o'i halbwm sy'n gysur cyfarwydd. Mae hi'n gwenu a phiffian wrth ail-fyw atgofion arbennig o blentyndod ei merch a thaith bws i'r ynysoedd Orkney yn yr Alban. Mae rhaglen hwyr Radio Cymru yn hymian yn y cefndir wrth iddi bori drwy'r tudalennau sy'n gyforiog o gariad. Estynna lun o'i dyddiau yn yr ysbyty, o'r tîm hapus ar y ward.

Sibryda, "Ew, dyddia' da," cyn symud ei bys ar hyd y wynebaw llawen. "Diwrnoda' efo pwrpas," gan teimlo brathiad byr o euogrwydd. Edrycha o amgylch yr ystafell wag. Mae ei llygaid yn setlo ar y bwlch wrth ei hochr yn y gwely, ac mae hi'n gwenu'n drist ar y pâr o byjamas streipiog sy'n gorwedd ar y cabinet wrth y ffenest. Momento fechan o'u priodas ddeugain mlynedd; mae'r olygfa yn achosi iddi roi'r albwm i lawr am heno. Coda un o lyfrau newydd Manon Steffan Ross yn ei le; gwrthwenwyn fydd yn hwyluso'r frwydr yn erbyn yr hiraeth fydd yn sicr o gnoi wrth iddi geisio cysgu.

Mae'r haf wedi cyrraedd o'r diwedd, gydag oerfel boreol y gwanwyn wedi'i ddifa gan belydrau eiddgar. Mae'r wŷn bach wedi mynd, does dim prancio ar y tir erbyn hyn. Ymlwybra Enid i'r gegin, fel y gwna bob bore.



“Iesu datws sbiwch arnoch chi i gyd!” Ebycha, “dydych chi’n smart!” Mae’r dail swta bellach yn wynebau llydan, pob planhigyn ychydig yn wahanol yn ei onglau a’i gorneli, pob un yn orchest naturiol. “Amser i chi symud i gartre’ newydd dydy!” ei llais yn gynnwrf llwyr. “Hen bryd i chi adael yr hen waliau ‘ma, allan da’ chi fod hogia’!”


Mae blodyn gwyrdd wedi ffurfio ar wddf pob un o’r planhigion bellach, eu coron yn cuddio am nawr. Gardd fechan sydd gan Enid, ychydig fetrau o lawnt wedi’i lapio mewn borderi o rosod ac ambell flodyn gwylt. Roedd gan yr hen dŷ lawnt swmpus oedd yn gorlifo mewn blodau a choed o bob math. Roedd gwaith y cynnal yn drech arni, nes bod chwyn yn dominyddu’r cloddiau a’r llecynnau oedd unwaith yn gampwaith mewn garddio.

“I fanna awn ni hogia’,” meddai gan bwyntio at gornel noeth yn y pridd. “Dyna chi lecyn bach da, digon o haul, digon o gysgod rhag yr hen wynt ‘cw.’”

Mae hi’n agor drysau’r conservatory yn y cefn, cyn estyn troed yn bwylllog am y patio, potyn yn ei llaw chwith.

Ymlwybra tua’r lleoliad dewisol, gan osod y potyn ar y llawr wrth ei hochr. Mae hi’n myfyrio am eiliad, gan edrych dros ei gardd tua’r tŷ – ei llygaid fel llynnoedd dwfn yn gloywi yn y golau.

“Mi fasa ‘di bod yn 87 heddiw.” Meddai wrth symud ei phen i syllu tua’r pridd, syfrdandod yn llenwi ei llais. “Yr hen greadur gwirion.” Hyrddia un deigryn hallt o gornel ei llygad tua’r llawr.




Tynna hances fechan tua'i llygaid gan chwythu ei thrwyn, cyn edrych o'i chwmpas i sicrhau nad oedd neb wedi gweld y foment ddiflanedig o emosiwn. Yna, mae hi'n estyn ei thrywel rhydlyd, cyn creu twll swmpus yn y pridd parod. Ar ôl creu'r trydydd twll, mae hi'n estyn y blodau yn ofalus gan ddodi pob un yn eu lle cyn newydd.

“Rei' da,” cyhoedda wrth edmygu ei gwaith. Mae hi'n codi, gan symud gyda phwyll o'r ardd tua'r coridor yng nghefn y tŷ. Yno, gyda'r trywel yn ei llaw chwith mae hi'n codi llun Priodasol du a gwyn sy'n eistedd ar y gist dderw. Mae hi'n codi'r llun at ei hwyneb gan sibrawd “washi,” cyn cau ei llygaid a doddi'r llun dros ei brest a'i wasgu'n dynn.


Mae crafangau poeth yr haul bellach yn gafael yn gadarn yn yr wythnosau sy'n pasio. Mae'r dyddiau diog yn berwi mewn pryfaid ac adar, a'r nosweithiau yn fôr o leisiau plant yn chwarae ym mharc y pentref. Mae'r diwrnodau yn hir ac mae Enid yn treulio ei nosweithiau yn eistedd yn y gadair freichiau ar y patio. Mae coronau y blodau bellach yn llydan agored, yn arddangosiad euraidd.

“A sut ydach chi heno 'ma, hogia?” gweidda o'r gadair gan edrych tua'i blodau sydd bellach yn sawl troedfedd o hyd. Mae'r adar i'w clywed yn canu alaw noswyllo, eu harmonïau prin yn atseinio ledled Cae Eithin. Mae Enid yn ochneidio cyn sibrawd yn drist. “Dydw i'm wedi siarad efo neb mewn diwrnoda' wyddoch chi, 'hogia.” Mae'r adar yn parhau i sgwrsio'n llon, wrth wleda ar yr heidiau helaeth o bryfaid man. “Neb wedi galw, dim lanto, na Delyth. Ond ma' nhw'n brysur ofnadwy dydyn, bywyda' prysur.”



Mae Enid yn edrych tua'r awyr oren-goch, gan anadlu'n araf. "Dydy mynd yn hen ddim yn syml wyddoch chi, a ma' 'na gywilydd mewn byw fel hyn." Mae dagrau'n cronni yn ei llygaid, gan ddisgleirio yng ngolau'r machlud. "Ar adegaf fel yma, dwi'n ddiolchgar o bob sgwrs - hyd yn oed efo'r cold callers 'na sy'n galw weithia'. Pwy fysa'n meddwl?" Y boen yn amlwg yn ei llais. "Dim fel'ma oedd hi ers talwm wir. Doedd 'na ddim eiliad o heddwch yn y tŷ pan oedd Delyth yn ferch fach." Mae hi'n gostwng ei gên gan syllu tua'r llawr. "A'n ffrindia' - wel mae'r rhan fwya' ohonyn nhw yn y llawr erbyn hyn dydyn." Mae hi'n myfyrio; does dim ond sŵn peiriant lladd gwair yn grwnan yn ddiog o ardd gyfagos i'w glywed. "A'r peth ydy, dwi'n hollol iawn y rhan fwya' o'r amser," dyweda gan ystyried yn drist. "Ond ma 'na adegaf fel heno sy'n anodd, lle dwi'n teimlo'r colledion drosodd a throsodd. Derbyn ydy'r ateb ma' gen i ofn." Ochneidia. "Derbyn ma' dyma ydy bywyd erbyn hyn."

Mae haul mis Awst yn crasu'r tir, gyda'r ardd fechan yn rhif 37 yn gasgliad o arlliwiau brown a melyn. Mae Enid yn y gegin, yn syllu tua'i chewri euraidd, sydd bellach yn tyrru uwchben y ffens sy'n gwahanu'r byngalos. "Glaw sydd ei angen." Meddai gan graffu ar y ddaear gignoeth tra'n sefyll ar flaenau ei thraed. "Tri diwrnod o law fasa'n champion." Mae hi'n estyn tun dyfrio o'r pantri cyn ymlwybro i'r sinc a'i lenwi. "Mi neith hyn y tro am rŵan." Dywedai, gan hyrddio'r tun o'r sinc ar y llawr ar ôl ei lenwi. Mae hi'n straffaglu tua drws y conservatory, gan wthio'r tun ar hyd llawr y gegin. Agora'r drws gan gamu ar y patio, a chodi'r tun o lawr y gegin a'i ollwng ar y patio.



Mae hi'n troi ar ei gwadn cyn camu'n drwsogl dros gornel y tun dyfrio. Mae'r byd yn dal ei wynt mewn parlys wrth iddi faglu a phlymio tua'r ddaear, ei chwrls perffaith ar wasgar a'i hwyneb yn ddarlun o arswyd. Daw sgrech wag o grombil ei brest, cyn iddi ymostwng i'r godwm a chofleidio'r boen fel hen ffrind wnâi ymddangos yn ei bywyd o dro i dro. Mae'r byd yn ei gwyllo o bell, yr adar a'r cacwn yn parhau a'u gwaith. Mae hi'n griddfan wrth i dduwch y poen daro fel Swnami hyll, yn clirio unrhyw hoel emosiynau eraill o lwybr ei ddinistr. Gorwedda ar y glaswellt, arogl pridd llaith yn llenwi ei ffroenau a blas haearn yn llechu yng nghefn ei gwddf. Heb rybudd daw'r dagrau, yn afonydd o'i llygaid collen sy'n lleithio'r ddaear gras. Gorweddai yn llonydd yno, y blodau haul yn parhau i syllu drosti yn warchodfilwyr swrth. Caiff Enid ei deffro gan y golau llachar, a'r lleisiau amryw sy'n cylchredu'r gwely.

“Mam, o mam bach.” Meddai un, “Da' chi'n iawn? Be ddigwyddodd?” Mae'n erfyn.

Dyw Enid ddim yn ateb. Mae hi ar goll, ar blaned arall.

“Lle ydw i?” Mae hi'n mentro.

“Yn yr Ysbyty Mam, Delyth sydd yma. Mi ddisgynnoch chi yn yr ardd acw. Da' ni gyd wedi bod yn poeni'n arw.”


“O.” ateba Enid, cyn meddwl yn dawel. Mae clais amlwg wedi dechrau ffurfio ar ei thalcen, a'i amrant de wedi chwyddo nes bod prin posib iddi weld o'i llygad.

“Ydach chi mewn poen?” Gofynna Delyth.

“Na, dim felly.” Meddai Enid yn dawel, cyn cau ei llygaid.

“Dim ond wedi blino braidd. Dwi'n cofio fawr ddim wsti.”

“Mi oeddech chi ar y llawr am oria' mam,” mentra Delyth gan bwylllo. “Chwe awr.” Mae hi'n sibrwd gyda siom. Myfyria Enid ar y ffaith.



“Nansi drws nesa wnaeth eich ffeindio chi, fel sach datws ar y llawr. A sbiwch ar groen eich ysgwydda’,” Mae Delyth yn pwyntio at swigod oedd wedi ymgasglu lle’r oedd yr haul wedi pinsio a brathu yn ei chroen brau. “Mae o’n goch ac yn pilio i gyd. O mam bach.” Meddai, gan wasgu ei llygaid ac edrych ar Enid gyda’i beinociwlars trueni. “Dy’ chi wedi bod yn y wars.”

Mae tawelwch darfodedig rhwng y ddwy. Heb rybudd newidia Delyth ei hosgo, gan wthio ei hysgwyddau yn ôl a chlirio ei gwddf.

“Ylwch mam, ma’n rhaid i ni siarad am y tŷ,” mentra.

“Dim eto Delyth, ti wedi swnian ddigon am y peth.” Ateba Enid yn chwyrn.

“Ia ond mae o’n bwysig, yn enwedig ar ôl hyn.”

“Dwi ddim isio gadael, Delyth. Dwi’n hapus acw.”

“Dydy hi ddim yn saff yno i chi mam.” Medd Delyth yn fflat.

“Paid â bod yn wirion.” Ebycha Enid. “Fy nghartre’ i ydy o a dwi ‘di setlo yna, oedd ddim yn hawdd ar ôl colli dy dad.”


“Dwi’n dallt hynna mam. Ond dydach chi ddim yn saff yno; hon ydy’r eilwaith i chi ddisgyn ‘leni, a di’ch cof chi ddim fel oedd o.”

“Mae’r hen go’ werth chweil diolch yn fawr.” Medd yn swta.

Mae Enid yn llonydd, yn methu credu’r hyn mae hi’n clywed.

“Dwi ddim yn siŵr be i ddisgwyl wrth alw heibio rŵan mam. Mi oedd y drws blaen ar agor unwaith, a’r popty ymlaen efo sosejys du ynddo fo dro arall. Mwg yn bobman.” Eglura

Delyth yn addfwyn, gan ymestyn am ddwylo ei mam. “Un o’r diwrnoda ‘ma dwi’n mynd i’ch ffeindio chi’n,” sibryda gyda chryndod yn ei llais, yn methu gorffen ei brawddeg. Sylla Enid yn ddi-emosiwn tua’r waliau llwm, gan glywed dim ond gwichian erfyniol y peiriant drip.



“Dwi’n gwybod fod hyn yn anodd.” Dyweda Delyth ar ôl munud gan wasgu dwylo ei mam yn dynn. “Plîs gwrandewch arna i mam.”

Mae cymylau duon diwedd yr haf yn ymgasglu dros y pentref, a diferion glaw yn tasgu’n ddiog ar ffenestri Bryn Bedw. Yn ei chartref newydd, mae Enid yn syllu dros y tir o ffenest y lolfa. Mae’r ystafell yn gysurus, wedi’i wisgo mewn patrymau cyfarwydd o arlliwiau llwydfelyn, yn gasgliad eclecticig o rygiau a chadeiriau cyfforddus. Mae hiraeth wedi ei beintio yn amlwg ar ei gwyneb, ei mynegiad yn gynfas trist. Mae hi’n gwisgo cardigan gydag amrywiaeth o sbiralau glas a llwyd arno ac mae hi’n wynebu i ffwrdd o’i chyd gyfeillion; ymhell o’u sgysiau arwynebol am y tywydd a’r teledu. O’r cyntedd daw ffigwr tal drwy’r ystafell, gan gyrraedd cadair Enid ac estyn llaw gynnes ar ei hysgwydd.


“Nain,” meddai’r llais. “Sut ydach chi?”

“lawn wsti lanto bach,” ateba Enid. “Mor iawn ag y gallwn i fod yn y lle ‘ma.”

“O nain bach. Ma’ gennych chi le da yma siŵr!” Ychwanega, cyn tynnu cadair wrth ochr ei Nain. “Nyrsys clên, bwyd wedi’i weini bob dydd, ffrindia’ newydd?” Meddai mewn tŷn ysgafn.

“Oes mwn,” Medd Enid yn drwm, cyn edrych y tu ôl iddi ar ei chymdogion newydd.

“Mi wnewch chi setlo, dwi’n addo.” Ateba lanto. “ Ond dydy o ddim yr un peth a bod adre, ‘wn i hynny.” Sylla ar ei nain. Mae ei hwyneb yn amlwg wedi heneiddio ers disgyn, gyda chysgod y clais ar ei thalcen yn adlais o’r diwrnod tyngedfennol hwnnw.



“Wel, wedi dod a syrpreis bach ydw i.” Dywed lanto yn chwareus.

“I fi?” cwestiyna Enid gan geisio cuddio'r diddordeb yn ei llais.

Estynna ei law chwith mewn dwrn, a'i osod ar lin ei nain.

“Sbiwch nain, meddai.” Cyn agor ei law a dangos casgliad o hadau llwyd sy'n gorwedd yn wasgar ar ei gledr.

“Wel y nefi blŵ!” dyweda Enid yn llon.

“Ma' nhw'n ffresh o Gae Eithin! Hefyd – mae'r rheolwraig wedi cytuno gadael i chi blannu nhw yma gwanwyn nesa, mae 'na ardd fach yn y cefn.” Medd lanto yn awyddus.

“O lanto bach,” mae Enid yn syllu ar ei wŷr bellach. “Be ydw i wedi gwneud i dy haeddu di d'wad. Ti'n dallt fod y bloda' 'ma yn golygu bobdim i mi, dwyt.” Mae ei llygaid yn llydan ac yn disgleirio,

“Yndw nain. Cadw traddodiad taid yn fyw, 'de.”

“Ia wir.” Ateba Enid, gan barhau i syllu ar ei wŷr. “Ty'd yma washi.”

Mae'r ddau yn cofleidio'n dynn, cyn iddi blannu cusan wlyb ar ei foch a'i gyflwyno i weddill yr ystafell; yn gloywi gyda balchder.

Ar fore cyntaf Medi mae'r byngalo yng Nghae Eithin yn llonydd gyda dim ond pennau plyg y blodau haul brown yn sigo yn yr awel ysgafn. Mae eu hadau ar wasgar ledled y patio. Yn y blaen mae arwydd yn sigo hefyd, yn dynodi 'SOLD,' mewn llythrennau bras.